
# Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol

Fersiwn ieuenctid a chymuned



# Helo



Mae trafnidiaeth yn rhan bwysig o fywyd! Sut rydyn ni'n teithio i'r ysgol, mynd i'r gwaith, cymryd rhan mewn gweithgareddau, chwarae chwaraeon, mynd ar wyliau, siopa, neu ddanfon nwyddau — mae'r cyfan yn cymryd trafnidiaeth.



## Mae Llywodraeth Cymru am i'r holl drafnidiaeth wneud y canlynol...

**cysylltu:**
- ledled Cymru a'r DU
- ar draws gwasanaethau fel llwybrau teithio trên, bysiau, a theithio llesol.

**bod yn garbon isel:**
- lleihau unrhyw lygredd
- defnyddio cerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel eraill.

**yn hawdd ei ddefnyddio:**
- dibynadwy
- fforddiadwy.

**cefnogi busnesau:**
- eu helpu i dyfu
- creu swyddi newydd.

Llwybrau teithio llesol yw llwybrau beicio a llwybrau troed

## Dyma ein cynllun 5-mlynedd newydd o'r enw Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022. (NTDP)

Mae'n nodi sut y byddwn ni'n gwella trafnidiaeth ar draws Cymru ac yn symud tuag at Gymru Sero Net. Mae hyn yn dweud wrthych chi am ein 3 blaenoriaeth.

Mae Sero Net yn golygu lleihau allyriadau carbon gymaint â phosib. Yna gwrthbwyso unrhyw beth sydd ar ôl.



## Ynglŷn â'r cynllun

Bydd y cynllun hwn yn effeithio ar y canlynol:

- Teithio llesol
- Gwasanaethau Bysiau
- Gwasanaethau rheilffordd
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio
- Gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol
- Tacsis a cherbydau hurio preifat
- Nwyddau a chludiant masnachol
- Cludiant môr i bobl a nwyddau
- Cludiant awyr i bobl a nwyddau

## Rolau a chyfrifoldebau

Rydyn ni eisiau gwneud cymaint ag y gallwn ni i wella trafnidiaeth, ond mae rhai pethau na allwn ni eu gwneud. Ni sy'n gyfrifol am rai rhannau o'r system drafnidiaeth, gan gynnwys ffyrdd, bysiau, tacsis, a rhai o'r rhwydwaith rheilffyrdd.

**Ond llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am rannau o'r system drafnidiaeth.** Mae hyn yn cynnwys rhannau o'r rhwydweithiau rheilffyrdd, rheolau am gerbydau a rheoliadau, porthladdoedd cludo a rhwydweithiau aer. Mae'n rhaid i ni weithio gyda Llywodraeth y DU i wella'r rhain.

### Gweithio gyda'n gilydd

Byddwn yn gweithio gyda'r canlynol:

- Awdurdodau Lleol
- Trafnidiaeth Cymru (TrC)
- gweithredwyr masnachol fel cwmnïau bysiau
- grwpiau cymunedol
- Llywodraeth y DU.

### Mae'r cynllun hwn yn cysylltu â chyfreithiau a chynlluniau eraill, gan gynnwys:

- **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.** Nod y cynllun hwn yw annog pobl allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

- **Sero Net Cymru: Cyllideb Garbon 2.** Mae hwn yn nodi ein hamcanion i leihau allyriadau o drafnidiaeth.



# Blaenoriaeth 1:

**Rydyn ni eisiau i wasanaethau trafnidiaeth gysylltu a bod yn hawdd eu defnyddio, a bod pobl yn gwneud llai o ddefnydd o'i ceir.**



# Camau Gweithredu

**Byddwn ni'n cefnogi pobl i leihau eu teithiau yn y car drwy:**

- ei gwneud yn bosibl iddyn nhw weithio o adref neu mewn hybiau cymunedol
- buddsoddi mewn gwell cysylltiadau rhyngrwyd a band eang hynod gyflym i fusnesau.

**Byddwn ni'n sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth yn cysylltu drwy:**

- wella a thyfu ein llwybrau teithio llesol
- gwella sut mae llwybrau teithio llesol yn cysylltu â gwasanaethau trên a bysiau
- gwirio bod unrhyw gynlluniau ar gyfer llwybrau newydd yn cysylltu gyda'r hyn sydd eisoes gennym.

**Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn defnyddio tir yn y ffyrdd cywir drwy:**

- weithio gyda nhw fel bod cynlluniau trafnidiaeth yn bodloni anghenion pobl
- diweddaru ein canllawiau ar gynllunio.


**Byddwn ni'n defnyddio adnoddau ac arian yn y ffyrdd cywir drwy:**

- weithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol (**CJC**) ac eraill.

**Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig** yn sicrhau bod yr holl gynlluniau trafnidiaeth a datblygiadau yn cysylltu ar draws eu hardaloedd.

# Blaenoriaeth 2:

**Rydym ni am i drafnidiaeth fod yn hawdd i’w defnyddio, yn werth da am arian a diwallu anghenion pobl nawr, ac yn y dyfodol.**




# Camau Gweithredu

**Byddwn ni’n annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy:**

- sicrhau bod llwybrau’n cysylltu’n well
- gwneud prisiau bysiau a threnau yn fwy fforddiadwy
- gwella gwasanaethau bysiau – gan gynnwys ein gwasanaethau pellter hir TrawsCymru
- gwella ansawdd bysiau, trenau, arosfannau, a gorsafoedd
- cael trenau i redeg yn amlach, gyda llwybrau newydd, o bosib, hefyd
- ei gwneud hi’n hawdd i’w ddefnyddio gan bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau
- cael llefydd diogel i bobl gadw eu beiciau mewn gorsafoedd bysiau a threnau
- tyfu’r Metro (system drafnidiaeth gynaliadwy sydd wedi’i hintegreiddio’n llawn) ledled Cymru gyfan
- gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau trafnidiaeth yn y Gymraeg.

**Byddwn ni’n gwneud cynllunio a thalu am deithiau yn haws drwy:**

- wella gwybodaeth ar fysiau a thrên
- cael apiau a gwefannau teithio hawdd eu defnyddio
- creu rhwydwaith hawdd ei ddefnyddio, dibynadwy gydag un system docynnau syml ‘Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn’
- cyfuno prynu tocynnau, cynllunio taith a gwybodaeth am drafnidiaeth
- dod ag apiau symudol a gwefannau cludiant at ei gilydd fel ei bod hi’n haws i bobl ddewis trafnidiaeth gyhoeddus
- cael system Talu Wrth Fynd digyswllt ar fysiau.

**Byddwn ni’n gwarchod yr amgylchedd drwy:**

- fuddsoddi mewn cerbydau allyriadau isel
- sicrhau bod gan pob cerbyd trafnidiaeth gyhoeddus allyriadau isel
- cael mwy o lefydd gwefru cerbydau trydan
- newid ein cyfreithiau, ein polisïau, a’n canllawiau ar drafnidiaeth.

**Byddwn ni'n helpu awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau drwy:**

- roi cyllid iddyn nhw ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Integredig (ATNMs)
- cydweithio i ddarparu atebion trafnidiaeth ar gyfer cymunedau lleol.

Mae ATNM yn gynlluniau ar gyfer y dyfodol i ddatblygu rhwydweithiau teithio llesol integredig, nid mapiau o'r hyn sydd gennym ni heddiw yn unig.

**Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod adnoddau'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf drwy:**

- wirio bod arian yn cael ei ddefnyddio i'n helpu ni i symud tuag at Cymru Sero Net
- sicrhau bod cynlluniau'n gwella teithio llesol
- gweithio gyda'r Panel Adolygu Ffyrdd i wirio mai unrhyw ffordd newydd a gynlluniwyd yw'r datrysiad cywir.

**Byddwn ni'n sicrhau y gall Cymru gefnogi ymchwil, datblygu, a sgiliau a chael swyddi diogel o ansawdd uchel trwy wneud y canlynol:**

- sefydlu Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang Ar Reilffyrdd ym mlaenau Cymoedd Dulais a Tawe
- hybu adfywio.

**Byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn:**

- sefydlu Porthladd Rhydd
- cynyddu gwasanaethau trên
- cyflwyno trenau trydan
- datblygu tanwyddau mwy gwyrdd, mwy cynaliadwy
- delio ag effaith Brexit.

Mae Porthladdoedd Rhydd yn helpu busnesau. Mae'n golygu nad oes rhaid iddyn nhw dalu tariffau am ddeunyddiau i wneud eu cynnyrch.



# Blaenoriaeth 3:

**Rydyn ni am helpu pobl i newid sut maen nhw'n dewis teithio.**



## Camau Gweithredu

**Byddwn ni'n annog pobl i ddewis trafnidiaeth gyhoeddus drwy:**

- gwneud yn siŵr bod trafnidiaeth yn ddibynadwy fel bod pobl yn ymddiried ynddo
- gwneud trafnidiaeth yn hawdd i bawb ei ddefnyddio
- gwneud teithiau'n hawdd i gynllunio a thalu amdanynt
- gwella llwybrau teithio llesol a sicrhau eu bod yn cysylltu â bysiau a threnau
- gwella gorsafoedd a'r ardaloedd o'u cwmpas.

**Byddwn ni'n lleihau llygredd drwy:**

- gefnogi atebion ac arloesi newydd
- edrych ar gynlluniau rhannu ceir
- cael mwy o gynlluniau beicio, e-feic ac e-cargo.

**Byddwn ni'n cefnogi'r Gymraeg drwy:**

- wneud yn siŵr bod staff trafnidiaeth yn cael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg
- edrych ar osod safonau Cymraeg i weithredwyr (Rheilffyrdd, Bysiau a Tacsi).

**Byddwn ni sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fforddiadwy drwy:**

- edrych ar ffyrdd o wneud prisiau tocynnau yn fwy fforddiadwy
- edrych ar ffyrdd i leihau prisiau tocynnau i bobl ifanc.

**Byddwn ni'n cefnogi awdurdodau lleol i gadw eu cymunedau'n ddiogel drwy:**

- roi terfyn cyflymder o 20mya ar fwy o ffyrdd
- roi'r pŵer iddyn nhw ddelio gyda cheir sydd wedi parcio ar balmentydd.

**Byddwn ni'n gwella beth mae pobl yn ei feddwl am drafnidiaeth gyhoeddus drwy:**

- redeg Ymgyrch Adfer Trafnidiaeth Gyhoeddus.

**Byddwn ni'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio teithio llesol drwy:**

- gael hyfforddiant diogelwch ffyrdd a beiciau mewn ysgolion
- cael gwersi ar pam fod trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn dda i bawb.

# Y camau nesaf

Byddwn ni'n gwirio ac yn adolygu'r cynllun hwn dros y 5 mlynedd nesaf.

### Y Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTPB).

Mae gennym ni Fwrdd Perfformiad Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTPB). Byddant yn gwirio ein gwaith ac yn rhoi adborth i ni. Bydd hyn yn ein helpu i weld a yw'r cynllun yn gweithio ac os oes angen i ni newid unrhyw beth.

Rydym ni hefyd wedi datblygu Fframwaith Monitro sy'n olrhain yr hyn rydyn ni'n ei wneud a bydd yn sylwi os ydym ni'n cyrraedd ein nodau ar gyfer trafnidiaeth.

# Diolch am ddarllen hwn

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, LIC46942

Print ISBN 978-1-80535-452-9, Digidol ISBN 978-1-80535-452-9

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

